Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

Rebecca Evans AS,
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

13 Tachwedd 2020

Annwyl Rebecca,

**Datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: Rheoliadau Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2020, a Rheoliadau Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2020**

Gwnaethom drafod y datganiadau ysgrifenedig mewn perthynas â **Rheoliadau Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2020** (Rheoliadau Rhif 1) a **Rheoliadau Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2020** (Rheoliadau Rhif 2) yn ein cyfarfod ar **9 Tachwedd 2020**. Mae'r ddau offeryn hyn yn ymwneud â chyd-drefniadaeth ar gyfer y marchnadoedd amaethyddol.

O ran Rheoliadau Rhif 1, gwnaethom nodi, yn benodol, yr anghytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch a oes angen cydsyniad. Fodd bynnag, ymddengys nad oes anghytundeb tebyg ynghylch Rheoliadau Rhif 2, ac mae Gweinidogion Cymru wedi cydsynio i Reoliadau Rhif 2 gael eu gwneud. Byddem yn ddiolchgar felly pe gallech gadarnhau nad oes anghytundeb ynghylch cymhwysedd o ran Rheoliadau Rhif 2, o ystyried eu bod hefyd yn ymwneud â chyd-drefniadaeth ar gyfer y marchnadoedd amaethyddol ac mai dyma'r rheswm dros roi cydsyniad.

Gwnaethom nodi hefyd nad yw'r datganiad ysgrifenedig ar gyfer Rheoliadau Rhif 1 yn nodi a yw'r Rheoliadau hyn yn effeithio ar bwerau deddfwriaethol y Senedd neu bwerau gweithredol Gweinidogion Cymru. Byddem yn ddiolchgar felly pe gallech egluro a oes unrhyw effaith o'r fath.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
0300 200 6565

Edrychwn ymlaen at gael eich ymateb cyn gynted â phosibl.

Yn gywir,

**Mick Antoniw AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English